

Rhyddhau o'r Gwasanaeth Ffisiotherapi Anadlol yn y Cartref

Ein nod yw trafod a chynllunio eich rhyddhau yn uniongyrchol â chi a'ch gofalwr lle y bo'n briodol, a byddwn yn anfon crynodeb rhyddhau at eich atgyfeiriwr yn amlinellu eich ymateb i driniaeth.

Cadwch y daflen hon yn ddiogel gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth am eich cynllun rhyddhau a sut i gysylltu â'r gwasanaeth ffisiotherapi anadlol yn y cartref ar ôl i chi gael eich rhyddhau os teimlwch y gallwn eich helpu ymhellach.

Bydd eich ffisiotherapydd yn cwblhau'r wybodaeth am ryddhau gyda chi a bydd copi hefyd yn cael ei gadw yn eich nodiadau ffisiotherapi.

Nod y gwasanaeth ffisiotherapi yw darparu cymorth priodol sy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn deg. Bwriedir i'n gweithdrefnau rhyddhau eich cefnogi pan nad ydych yn cael eich adolygu gan y ffisiotherapydd mwyach.

Lle nodir yn glinigol, gellir darparu cyngor, adolygiadau neu driniaeth yn y dyfodol. Mae dwy ffordd y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth eto:

- Gall eich Ymgynghorydd Anadlol wneud atgyfeiriad newydd.
- Neu gallwch ddefnyddio'r weithdrefn hunanatgyfeirio a amlinellir isod.

Os hoffech chi hunangyfeirio, dylech ffonio'r rhif a nodir drosodd a rhoi'r wybodaeth sylfaenol sydd wedi'i chwblhau ar y daflen hon i'r derbynnydd. Yna, bydd ffisiotherapydd yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a phenderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol.

Efallai y bydd angen i'r ffisiotherapydd ofyn am ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn gyson. Os oes unrhyw bryderon gennych am eich cynllun rhyddhau, trafodwch y rhain â'ch ffisiotherapydd.

Gwybodaeth Rhyddhau

Enw: Dyddiad Rhyddhau:

Cyfeiriad:
.....

Rhif Ysbyty:

Enw'r person a all ein ffonio ar eich rhan chi:

Perthynas â chi:
.....

Ysbyty: Therapydd:

Rhif Cyswllt Ffisiotherapi: 01495 768679

Cyngor ar Ryddhau:
.....
.....

Gwybodaeth, gwasanaethau neu rifau cyswllt perthnasol eraill
.....
.....

Cwblhawyd gan: Swydd:

Llofnod: Dyddiad:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English